

RHAGARWEINIAD

Mae melinau llifio symudol yn bur gyffredin yng Nghymru erbyn hyn. Mae'r math o lif a ddewiswch yn dibynnu ar faint y coed sydd gennych. Ar y llaw arall, bydd llawer o'r melinau llifio llai yn torri coed ar contract os cânt eu cludo yno.

CYN I CHI DDECHRAU

- Cyn i chi ddechrau gofalwch eich bod yn gwybod pa goed y byddwch eu hangen cyn i chi eu torri a'u llifio ar draws. Os bwriadwch werthu peth o'r coed dylech ddarganfod yn union beth mae'ch cwsmer ei eisiau.
- Gofalwch bod gennych drwydded angenrheidiol i dorri coed a chaniatâd gororchymyn gwarchodaeth coed.
- Gofalwch bod eich coed o'r ansawdd iawn. Gofynnwch am gyngor os ydych yn ansicr.

PEIRIANNAU

Mae amrywiaeth eang o beiriannau ar gael i gyflawni gwahanol fath o bethau, yn ôl maint y coed sydd i'w prosesu a'r cynnyrch terfynol. Melin Lucas (gweler Ffigur 1) sydd fwyaf addas ar gyfer y logiau mwyaf, 90cm i 2m ar draws. Gyda logiau sy'n 30 - 90 cm ar draws mae cylchlif yn addas (gweler Ffigur 2), tra bo slabiwr dwbl yn addas ar gyfer logiau 15 - 30 cm ar draws (Ffigur 3).



Ffigur 1: Melin Lucas

Ar ôl i chi gael eich trwyddedau a chaniatâd, gwnewch restr dorri ar gyfer eich anghenion eich hun a'ch cwsmeriaid. Mae torri dibrofiad yn beryglus a bydd yn difetha coed da. Gofynnwch i rywun profiadol wneud y gwaith, neu'n well fyth, ewch i gael hyfforddiant i wneud y gwaith yn iawn eich hun. Os ydych yn bwriadu cynnig rhai o'ch coed i fasnachwr, siaradwch ag ef tra mae'r coed yn dal ar eu traed. Mae'n debyg y bydd arno eisiau arbenigwr i dorri ei goed.

Dewiswch safle mor agos â phosibl i'r coed. Mae angen iddo fod yn sych a gwastad, gorau oll ar dir caled, ac yn ddigon mawr i osod y llif ac i alluogi tractorau i ddod i mewn ac allan o'r safle'r ddiogel.



Ffigur 2: Cylchlif

Trimiwch y coed yn ofalus iawn. Gall fflawiau rhydd o bren a brigau bychain fod yn arbennig o beryglus gyda chylchlif. Chwiliwch yn ofalus am ddarnau o wifrau, hoelion, neu dyllau a allai gynnwys darn o garreg. Os ydych yn amau rhywbeth, chwiliwch amdano gyda hen fwyell ac **nid gyda llif gadwyn**. Defnyddiwch ddatgelydd metel os gellwch fenthyca neu logi un.

Dewch â'ch coed i'r safle, gan ei gadw mor lân â phosibl. Torrwch hwy ar eu traws i'r hyd **cywir** gyda'r pennau'n **sgwâr** a glân. Llwythwch y coed ar gynalyddion fel y gellir eu trin yn rhwydd a'u cadw'n glir o raeau a baw a fydd yn difetha llafn y llif. Glanhewch unrhyw faw sydd ar ôl oddi ar y pren – tynnwch y rhisgl i ffwrdd â rhaw os oes angen – ond gwnewch hynny **cyn** i'r llif gyrraedd. Peidiwch â gwastraffu amser y llifiwr yn glanhau'r coed. I chi gael gwerth eich arian mae angen iddo fod yn llifio'n barhaus. Mae hyn yn golygu rhoi digon o goed newydd o'i flaen a symud y rhai sydd wedi eu llifio o'r ffordd.



Ffigur 3: Slabiwr dwbl

Marcwch ben pob log agosaf at y lliwyr i ddangos iddo pa drwch i'w dorri. Os nad ydych yn sicr, trafodwch gydag ef gyntaf, ond cofiwch mai ei amser ef yw eich arian chi. Po fwyaf trefnus ydych, gorau'n byd fydd y gwasanaeth y gall ei roi i chi.

Stacio a Sychu

P'run a yw eich coed i fod yn byst ffensio neu'n ddodrefn, mae'n talu i'w stacio'n briodol fel y gallant ddechrau sychu'n wastad. Gwnewch hyn cyn gynted ag y daw'r coed oddi ar y llif. Trwy wneud hyn dim ond unwaith y bydd raid i chi drin a thrafod y coed a hefyd roi'r amser lleiaf i ffyngau eu gwano a difetha eu lliw.

- Gofalwch bod gennych ddigon o wahanyddion, 10mm neu 12mm o drwch x 20mm o led.
- Gofalwch nad oes baw, pydredd, pryf pren, hoelion na chreosot ar y gwahanyddion oherwydd gallant effeithio ar werth y coed. Mae'n arbennig o bwysig bod gwahanyddion yn lân a sych wrth stacio pren masarn (sycamore) gan y gall staenio'n hawdd.
- Rydym yn argymhell staciau 3 troedfedd o led, gyda gwahanyddion 1 droedfedd (neu lai) oddi wrth ei gilydd a chynalyddion a strapiau 2 droedfedd oddi wrth ei gilydd.
- Dylai paletau (neu gynalyddion) fod yn wastad ar lawr.
- Wrth stacio dylid brwsio blawd llif oddi ar y byrddau er mwyn cael sychu gwastad a lleihau staenio a marciau glynu.
- Defnyddiwch haen o wahanyddion rhwng y paled a'r haen gyntaf o goed.
- Gosodwch wahanyddion pen mor agos â phosibl i ben y byrddau. Mae pennau sy'n ymwthio allan yn sychu'n gynt a gall hyn hollti pennau'r byrddau.
- Mae'n rhaid i'r byrddau ym mhob haen fod o'r un trwch a dylent fod yn gyson o ran hyd lle bynnag y bo'n bosibl.
- Cymerwch ofal i gadw'r gwahanyddion yn fertigol mewn rhes.
- Staciwch goed o wahanol safon ar wahân.
- Strapiwch y pecyn yn **dynn** bob pen wrth ochr y gwahanyddion, ac yna bob 2 droedfedd wrth ochr y gwahanyddion.
- Staciwch mewn adeilad sych ond gydag awyriad da iawn. Mae sied agored yn ddelfrydol. Gadewch le rhwng staciau i aer gylchdroi ac i fedru mynd at y coed.
- Cadwch y coed allan o'r haul.
- Os yw eich stac yn daclus rydych yn fwy tebygol o gael pris da amdano.



Ffigur 4: Coed wedi eu stacio'n dda

Hyd yn oed os yw'r pren i'w drin bydd yn sugno creosot neu driniaeth bwysau yn well os yw'n sych. Mae pren trwyadl sych yn llai tebygol o grebachu, ystofi a chracio na phren newydd ei lifio. Os yw'r pren i'w ddefnyddio dan do mewn lle cynnes bydd angen iddo gael ei sychu mewn ody. Mae gan lawer o fusnesau bychain ody ac maent yn cynnig gwasanaeth sychu, ond holwch sut y mae'r cwsmer yn disgwyl cael y coed cyn i chi eu llifio a'u stacio.

Mae gwybodaeth bellach ar sychu mewn odyddau a chynhyrchion coed ar gael gan Coed Cymru

www.coedcymru.org.uk